# Adroddiad Blynyddol Cynghorydd Cyngor Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr

**Y Cynghorydd Paula Ford**

**Ward: Saint-y-brid ac Ynysawdre**

## Plaid: Plaid Lafur Cymru

Mae'r adroddiad hwn yn nodi fy ngweithgareddau allweddol yn ystod y flwyddyn a ddaeth i ben ym mis **Mai 2024**. Fe'i darperir er gwybodaeth i bob etholwr ac nid at unrhyw ddiben arall. Barn y Cynghorydd yw'r safbwyntiau a fynegir yn yr adroddiad hwn ac nid ydynt o reidrwydd yn adlewyrchu barn Cyngor Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr.

**Rôl a Chyfrifoldebau**

Cefais fy ethol i Gyngor Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr i gynrychioli Saint-y-brid ac Ynysawdre ar ddydd Iau 5ed 2022. Ers cael fy ethol rwyf wedi ymgymryd ag amrywiaeth o rolau o fewn y Cyngor, gan gynnwys cael fy mhenodi i sawl pwyllgor.

Rwy'n aelod o'r Fforwm Cynghorau Tref a Chymuned, pwyllgor Craffu a Throsolwg Pwnc 2, pwyllgor Gwasanaethau Democrataidd a Bwrdd Cadwraethwyr Coety Walia. Mae hyn yn ychwanegol at gyfarfodydd misol llawn y Cyngor.

Rwyf wedi cefnogi trigolion fy ward ar amrywiaeth o faterion ac wedi codi nifer sylweddol o ymholiadau gan etholwyr yn ffurfiol gyda'r cyngor a sefydliadau eraill. Mae hyn yn ychwanegol at fynd i'r afael yn anffurfiol â nifer o faterion eraill yr ydych wedi gofyn i mi eich helpu i'w datrys.

Er mwyn fy ngalluogi i gyflawni fy rôl fel cynrychiolydd, rwyf wedi mynychu nifer o Weithgareddau Datblygu Aelodau sydd wedi fy helpu i sicrhau bod fy ngwybodaeth am faterion cenedlaethol a lleol sy'n effeithio ar y Cyngor a'm ward yn cael ei chynnal.

Mae rhagor o wybodaeth ar gael drwy ddilyn y ddolen hon:

Y Cynghorydd Paula Ford

**Gweithgarwch yn yr Etholaeth**

Rwyf wedi cyflwyno gwaith achos / atgyfeiriadau. Rwyf wedi cynorthwyo gydag ystod eang o faterion, nad oedd pob un o fewn pwerau neu gylch gwaith Cyngor Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr, ond er hynny, ymatebais i helpu i ddatrys materion lle bynnag y bo modd.

Ar sawl achlysur, rhoddais gymorth uniongyrchol i breswylwyr a/neu eu cyfeirio'n gyflym at ffynonellau cymorth eraill heb fod angen proses gyfeirio ffurfiol Cyngor Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr. Er enghraifft: cefnogi preswylwyr i gael gafael ar wybodaeth am fudd-daliadau, cyngor a chymorth ymarferol, fel cyfeirio at fanciau/pantrïoedd bwyd, Cyngor ar Bopeth, Gofal ac atgyweirio, V2C a chymdeithasau tai eraill ac asiantaethau

arbenigol lleol eraill.

Rwyf wedi cynnal cymorthfeydd wyneb yn wyneb lleol ac wedi sicrhau bod fy nghyfeiriad cartref a'm rhif ffôn ar gael i ymgysylltu a gwrando ar farn a phryderon preswylwyr ac rwy'n falch o gefnogi a chael cefnogaeth gan Chris Elmore, AS Llafur dros Ben-y-bont ar Ogwr a Phorthcawl a Huw Irranca-Davies Aelod o'r Senedd.

**Mentrau a Gweithgareddau Arbennig**

Rwyf wedi cefnogi preswylydd lleol a oedd angen addasiadau sylweddol i'r eiddo i gynnal annibyniaeth yn dilyn salwch difrifol. Rwyf wedi helpu trigolion i lenwi ceisiadau am fathodyn glas yn ogystal â mynd â nhw i swyddfeydd dinesig i ddatrys problemau wyneb yn wyneb pan fo angen.

Rwyf wedi datrys problemau ar gyfer preswylwyr V2C a oedd â phroblemau parhaus gyda gwaith atgyweirio a chynnal a chadw.

Yr wyf yn cefnogi'r grwpiau ymgyrchu i atal adeiladu gwaith Hybont ym Mryncethin a'r hyb trafnidiaeth ar Gomin Bryncoch.

Rydw i'n cerdded o amgylch y ward yn rheolaidd, yn siarad â phreswylwyr ac yn rhoi gwybod am faterion rydw i'n dod ar eu traws ac yn gwirio bod gwaith yr adroddwyd amdano wedi cael ei wneud.

Yr wyf wedi cyfarfod ag Arweinydd y Cyngor mewn dau fan chwarae lleol i drafod adnewyddu'r parciau hyn, a fydd yn digwydd yn y dyfodol agos.

Rwy'n cefnogi cynifer o ddigwyddiadau lleol â phosibl, gan roi gwobrau raffl a chymorth pan fo angen. Yr wyf hefyd yn defnyddio cynifer o fusnesau lleol â phosibl.

**Gweithgareddau/Materion Eraill**

Rwy'n mynychu cyfarfodydd PACT rheolaidd, ynghyd â Swyddogion Cymorth Cymunedol yr Heddlu lleol a swyddogion o V2C, gan weithio gyda'n gilydd i gefnogi a gwella'r ardal leol.

Yr wyf wedi mynychu cyfarfodydd gyda Chymdeithas Trigolion Henoed Ynysawdre, gan eu cefnogi gyda materion sy'n codi yn eu cymuned.

Rwy'n hygyrch i breswylwyr drwy gymorthfeydd un-i-un, dros y ffôn, drwy neges destun, drwy'r post, e-bost, negeseuon uniongyrchol ar Facebook a WhatsApp. Rwyf hefyd yn cynnal presenoldeb ar y cyfryngau cymdeithasol sy'n rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf i'r gymuned am bolisïau, newyddion a digwyddiadau lleol, rhanbarthol a chenedlaethol. Rwy'n cefnogi ac yn hyrwyddo busnesau lleol lle bynnag y bo modd ac yn cynnal presenoldeb amlwg da yn yr ardal.

| | | |
|---|---|---|
| **Cynghorydd:** | Paula Ford | **Dyddiad: 23 Gorffennaf 2024** |